Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 01.09.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# IECHYD & DIOGELWCH: Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) – Amddiffyn y rhai sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain

Dylai cyflogwyr ddarparu hyfforddiant, goruchwyliaeth, monitro a chefnogaeth i'r rheini sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain, a all fod mewn mwy o berygl o niwed oherwydd efallai na fydd ganddynt unrhyw un i'w helpu neu i'w cefnogi os aiff pethau o chwith. Mae'r HSE wedi cynhyrchu nifer o adnoddau defnyddiol:

- Taflen – ‘Protecting lone workers: How to manage the risks of working alone’: https://www.hse.gov.uk/pubns/indg73.htm

- Adran ar wefan HSE: https://www.hse.gov.uk/lone-working/worker/index.htm

- Fidio yn nodi’r cyngor allweddol: https://bit.ly/3vMqn0I

## TRETH: Gall CThEM helpu gyda chostau gofal plant

Mae Cyllid a Thollau EM (HMRC) yn atgoffa teuluoedd sy’n gweithio, gan gynnwys yr hunangyflogedig, a allai fod yn colli allan ar Ofal Plant Di-Dreth, i gofrestru. Darganfyddwch mwy ar:

https://www.gov.uk/tax-free-childcare
https://www.childcarechoices.gov.uk/

Gall darparwyr gofal plant hefyd gofrestru ar gyfer cyfrif darparwyr gofal plant trwy GOV.UK i dderbyn taliadau gan rieni a gofalwyr drwy’r cynllun ar:

https://www.gov.uk/guidance/sign-up-to-tax-free-childcare-if-youre-a-childcare-provider

## ARIANNU: Grantiau Bach – Amgylchedd (tirwedd a phryfed peillio)

Mae Cynllun Grantiau Bach newydd – Cynllun yr Amgylchedd, ar thema Tirwedd a Pheillwyr, bellach ar agor ar gyfer datganiadau o ddiddordeb ac yn cau ar 5 Hydref 2022. Mae’r cynllun yn cynnig cefnogaeth ar gyfer gwaith cyfalaf, sy’n gallu sicrhau buddion amgylcheddol eang a chyffredinol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar:

https://llyw.cymru/grantiau-bach-amgylchedd

## ARIANNU: Grant Buddsoddi mewn Coetir

Lansiwyd rownd ddiweddaraf y Grant Buddsoddi mewn Coetir ar 13 Mehefin 2022 a bydd yn cau ar gyfer ceisiadau ar 14 Hydref 2022. Mae'r cynllun yn cynnig grantiau o £40,000 i £250,000 ar gyfer prosiectau sy'n creu coetiroedd newydd, a/neu wella ac ehangu coetiroedd presennol, sydd â'r potensial i ddod yn rhan o'r rhwydwaith Coedwig Genedlaethol i Gymru yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar:

https://llyw.cymru/coedwig-genedlaethol-i-gymru-y-grant-buddsoddi-mewn-coetir-cronfa-treftadaeth-y-loteri-genedlaethol

## ARIANNU: Cynllun Cynllunio Creu Coetir

Mae Cynllun Cynllunio Creu Coetir newydd ar agor ar gyfer datganiadau o ddiddordeb. Mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu cynlluniau newydd i greu coetiroedd, ac fe all gefnogi cais am gyllid Creu Coetir gan Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, am bum mlynedd o ddyddiad gwirio. Darganfyddwch mwy ar:

https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir

## CYFLOGAETH: WORKPLACED – Menter Môn

Mae WORKPLACED yn brosiect creu swyddi sy'n gosod unigolion mewn lleoliadau gwaith â thâl gyda busnesau lleol lle byddant yn derbyn profiad a hyfforddiant sy'n arwain at swyddi parhaol. Mae'n cynnwys siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Chonwy ac yn cael ei gyflwyno gan Menter Môn. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.mentermon.com/priosectau/workplaced/

## CYNGOR: Tŷ'r Cwmnïau – Ffeilio cyfrifon yn gynnar ac ar-lein i osgoi oedi

Cynghorir busnesau sydd am ffeilio cyfrifon gyda Thŷ'r Cwmnïau erbyn diwedd mis Medi i ddefnyddio eu gwasanaethau ar-lein lle bo hynny'n bosibl a chaniatáu digon o amser cyn y dyddiad cau. Ewch i:

https://bit.ly/3R0LA0X

## DIGIDOL: Gweithdai digidol Smart Gwynedd a Môn

Mae Smart Gwynedd a Môn, mewn cydweithrediad â'r Hwb Menter, yn cynnig cyfres o weithdai ar-lein yn ystod mis Medi a mis Hydref i fusnesau bach wella eu sgiliau marchnata a'u platfform digidol. Bydd y sesiynau'n cynnwys cyflwyniad i frandio, defnyddio Canva i greu deunyddiau marchnata a defnyddio Facebook ac Instagram i helpu i dyfu eich busnes. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3RmQDbS

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru